**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD GWENER, 30 GORFFENNAF 2021**

**BWRDD ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY'R CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: L.Jones a/ac A.Wingrave

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

L.Beynon, M. Thomas, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Wingrave yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   **Penderfynwyd:**

   Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 25 Mehefin, 2021.

3. **IECHYD YR AMGYLCHEDD A SAFONAU MASNACH - ADOLYGIAD O ORFODI'R GYFRAITH BWYD A PHORTHIANT 2020-2021 A CHYNLLUN CYFLAWNI'R GWASANAETH BWYD A PHORTHIANT 2021-2022**

   **Penderfynwyd:**

   Nodi'r adroddiad.

## 4. DIRPRWYAETHAU FFÏOEDD TENANTIAID

**Penderfynwyd:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, cymeradwyo diwygio'r trefniadau dirprwyo mewn perthynas â Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach a nodir yn fersiwn 14.12.18 o gyfansoddiad yr awdurdod [h.y. yn Rhan 3 – Swyddog Trefniadau Dirprwyo'r cyngor: {c} Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach - Atodlen 1] fel a ganlyn:

1. Ychwanegu Deddf Rhentu Cartrefi (Ffïoedd etc.) (Cymru) 2019 at y rhestr o ddeddfwriaeth [a nodir yn y ddogfen y cyfeirir ati uchod, Atodlen 1] a ddirprwyir i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd a Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

2. Dirprwyo awdurdod i'r swyddogion hynny yn [1] uchod awdurdodi swyddogion unigol, cymwys a chymwysedig i weithredu o dan y ddeddfwriaeth honno.

3. Dirprwyo i'r swyddogion hynny yn [1] uchod yr awdurdod i gychwyn achos cyfreithiol o dan y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Rhentu Cartrefi (Ffïoedd etc.) (Cymru) 2019 ar y cyd â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol [gan gynnwys llofnodi unrhyw rybuddion yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref] a, lle bo troseddwr honedig yn cael ei gadw yn y ddalfa mewn perthynas â throsedd, i gychwyn achos drwy ddwyn cyhuddiad yn ei erbyn.

4. Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i geisio diwygio cyfansoddiad y cyngor maes o lawr: er mwyn adlewyrchu'r newidiadau uchod i drefniadau dirprwyo'r awdurdod.

5. Bod aelodau'n awdurdodi Cyngor Dinas Caerdydd, fel Awdurdod Trwyddedu i Gymru (Rhentu Doeth Cymru), i arfer unrhyw swyddogaeth awdurdod gorfodi, mewn perthynas ag ardal Cyngor Castell-nedd Port Talbot, at ddibenion Deddf Rhentu Cartrefi (Ffïoedd etc.) (Cymru) 2019, gan gynnwys (ond heb gyfyngiad) cymryd camau gorfodi a dwyn achos troseddol yn unol ag adran 19 o'r Ddeddf honno.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Galluogi'r ddeddfwriaeth newydd i gael ei rhoi ar waith yn gyflym ac yn effeithlon, a sicrhau bod pwerau gorfodi hefyd yn cael eu dirprwyo i Rhentu Doeth Cymru, y mae'r adran yn gweithio mewn partneriaeth â nhw, ar gyfer gorfodi'r ddeddfwriaeth hon.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

5. **CYNLLUN LLESOL I WENYN CNPT**

**Penderfynwyd:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, mabwysiadu Cynllun Llesol i Wenyn CNPT fel y nodir yn atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd , a chymeradwyo'r newidiadau mewn rheolaeth i gynyddu maint y glaswelltiroedd blodau gwyllt a'u cyhoeddi ar wefan y cyngor.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Mae angen yr argymhellion i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

6. **YSTYRIED CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLLN) NEWYDD CASTELL-NEDD PORT TALBOT 2021-2036**

Yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Craffu, cytunodd Aelodau'r Cabinet i ychwanegu'r geiriad mewn llythrennau italig i benderfyniad 1, isod.

**Penderfynwyd:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig a ddosbarthwyd, cymeradwyo'r canlynol:

1. Cymeradwyo Cytundeb Cyflawni Drafft Ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, *yn amodol ar gynnwys yr adborth gan aelodau yn y Pwyllgor Craffu Adfywio a Datblygu Cynaliadwy mewn perthynas â chynnwys y gymuned.*

2. Cymeradwyo Adroddiad Cwmpasu drafft SRA fel y manylir arno yn Atodiad 3 i'r adroddiad a gylchredwyd.

3. Rhoi'r gweithdrefnau cyhoeddi ac ymgynghori, fel y'i hamlinellir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, ar waith.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau y cydymffurfir ag Adran 63 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004; Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015); Deddf Cydraddoldeb (2010); Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015; Polisi Cynllunio Cymru 11 (2021) a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Rhifyn 3 (2020), yn ogystal ag awdurdodi'r ymarferion ymgynghori i sicrhau bod Cytundeb Cyflawni Drafft Ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac Adroddiad Cwmpasu SRA yn gadarn a bod cyfiawnhad llawn dros y gweithdrefnau a amlinellir.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

## 7. BLAENRAGLEN WAITH 2021-2022

**Penderfynwyd:**

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/2022.

**CADEIRYDD**